Oen bach diolchgar

Bod yn ddiolchgar / Helpu Eraill

Pranciodd yr oen bach yn heulwen mis Ebrill. Tri diwrnod oed oedd yr oen bach. Yn ymyl y clawdd roedd ei fam yn pori. Crwydrodd yr oen bach yn nes ac yn nes at y giât oedd yn mynd i'r cae dros y ffordd. Croesodd y ffordd. Ond dim ond ffordd drol oedd hi. Aeth i mewn i'r cae dros y ffordd. Doedd dim dafad nac oen ar gyfyl y cae hwnnw. Edrychodd o'i gwmpas. Clywai sŵn yn dod o'r gwrych. "Help! Help!" Pranciodd yr oen bach tuag at y sŵn. Gwelodd anifail brown-goch yn gorwedd yn y gwrych. Doedd yr oen bach erioed wedi gweld anifail fel hwn yn ei fywyd o'r blaen. Wel, dim ond tri diwrnod oed oedd yr oen bach!

"Wnei di f' helpu" meddai'r llwynog coch, "rydw i wedi bod yma am dridiau. Mae fy nghynffon wedi mynd yn sownd yn y gwrych."

"Ond, pa fath, o anifail wyt ti?" gofynnodd yr oen bach. "Dydw i erioed wedi gweld anifail tebyg i ti o'r blaen."

"Llwynog bach diniwed ydw i . Mae fy nghynffon goch flewog wedi mynd yn sownd yn y drain a'r mieri yma. Wnei di f' helpu os gweli'n dda?"

Gwthiodd yr oen bach ei ffordd drwy'r drain a'r mieri. Roedd y pigau yn mynd yn sownd yn ei wlân. Aeth yn ei flaen yn araf nes cyrraedd y llwynog. Cydiodd yn ei gynffon a'i thynnu'n ofalus o'r drain. Ymhen dim roedd ei gynffon yn rhydd.

"Wyt ti am ddweud diolch?" gofynnodd yr oen bach. Dangosodd y llwynog ei ddannedd miniog. "Na, oen bach, dydw i ddim am ddweud diolch."

"O! hen lwynog anniolchgar wyt ti, a finnau wedi tynnu dy gynffon goch o ganol y drain a'r mieri." Dangosodd y llwynog ei ddannedd miniog unwaith yn rhagor.

"Ti ddylai fod yn ddiolchgar i mi," meddai'r llwynog gan ddangos ei ddannedd miniog unwaith eto.

"Pam felly?" gofynnodd yr oen bach yn ddiniwed. "fe wnes i dy

ollwng yn rhydd o'r drain a'r mieri.
"Do, fe wnest ti fy ngollwng yn rhydd. Ond cofia di, llwynog ydw i ac oen bach wyt ti. Fe ddylet ti fod yn ddiolchgar nad ydw i wedi dy larpio di ac wedyn dy fwyta bob tamaid."
Dechreuodd yr oen bach grynu. "Fy llarpio! Fy mwyta!"
Dechreuodd y dagrau redeg i lawr ei ruddiau.
"Paid ti â phoeni'r tro hwn. Wna i ddim mo dy fwyta di rwan ond gwylia dy hun. Llwynog cyfrwys ydw i ac oen bach diniwed wyt ti."
Rhedodd i ffwrdd gan ddal i ysgyrnygu ar yr oen bach.
"Mae'n siŵr y dylwn i fod yn oen bach diolchgar iawn" meddai'r oen bach wrtho'i hun.
Pranciodd yn ôl drwy'r giât, ar draws y ffordd drol ac yn ôl at ei fam oedd yn gorwedd yn cnoi ei chil yn ymyl y gwrych.

O Dduw, gawn ni fod yn ddiolchgar bob amser. Amen.

✦ Pa un ddylai fod yn ddiolchgar, yr oen bach neu'r llwynog?
✦ Ydych chi'n credu fod y llwynog wedi bod yn anifail cyfrwys?